



Rhaglen Ymchwil a Datblygu wedi'i Mentora i Artistiaid

Cynigir y rhaglen yma gan Addo ac fe'i cyllidir gan Gyngor Celfyddydau Cymru drwy ei Gronfa Adfer Diwylliannol Cymru - COVID-19 Cefnogaeth i Sefydliadau.

Brîff i Ymgeiswyr

Y ffi i bob artist: £6,250 (am 25 niwrnod o waith am £250 y diwrnod, yn cynnwys costau teithio a threuliau rhesymol) + £500 ar gyfer deunyddiau a threuliau.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 06 Rhagfyr 2020, canol nos (GMT)

Cyfweliadau: 16 Rhagfyr 2020, drwy Zoom.

Rydym yn gwahodd ceisiadau gan artistiaid sydd â'u cartref yng Nghymru sy'n ymddiddori mewn datblygu syniad ar gyfer creu ar y cyd brosiect yn y celfyddydau cyfoes, a chanddo'n fan cychwyn sefyllfa neu gyd-destun, tuag at newid cymdeithasol yng Nghymru gyda chefnogaeth mentora gan Addo.

Bydd y rhaglen ymchwil a datblygu yma, wedi'i mentora, ar fynd o 04 Ionawr - 31 Mawrth 2021.

Mae pedwar lle ar gael, sy'n agored i artistiaid proffesiynol sydd naill ai'n cynhyrchu gwaith yn y byd cyhoeddus yn rhan o'u harfer sydd eisoes yn bod neu sy'n ymddiddori mewn datblygu eu harfer yn y maes yma. Mae'r cyfle'n agored i artistiaid ar unrhyw gyfnod ar eu gyrfa.

Cyd-destun

Amcan y cyfleoedd hyn ydi rhoi lle i artistiaid ddatblygu syniad ar gyfer prosiect yn y celfyddydau a chanddo'n fan cychwyn sefyllfa neu gyd-destun, sy'n cydnabod bod cymunedau'n gymhleth ac yn neilltuol ac sy'n ymateb i bryder neu bryderon cyfoes, megis cynaliadwyedd, cyd-greu, ein perthynas â'r byd cyhoeddus yn ystod ac ar ôl Covid-19, effaith newidiadau cymdeithasol-wleidyddol diweddar (e.e. Mae Bywydau Du o Bwys, We Shall Not Be Removed (UK Disability Arts Alliance yn mynnu camau diogelwch i amddiffyn dyfodol celfyddydau anabledd yn y Deyrnas Unedig), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Brexit). Nid rhestr gyflawn mo hon o'r achosion sydd ohoni a byddai gennym ddiddordeb mewn gwybod beth ydi'ch pryderon, boed yn lleol, boed yn fyd-eang.

Mae'n bwysig i fan cychwyn y syniad fod yn sefyllfa neu'n gyd-destun, sef ei fod ynghlwm â chymundod diddordebau, mannau a lleoedd ar y cyd (boed yn ddaearyddol, yn thematig, yn amserol ynteu'n gymdeithasol) a'i fod yn ystyried cyd-destun Cymru'n neilltuol. Fodd bynnag, nid cynhyrchu gwaith gwellhaol yn unig mo diben y gwaith yma, gwaith nad ydi'n cydnabod natur ddadleuol mannau, safleoedd a chymunedau. Drwy'r sgysiau hyn rydym hefyd yn ymddiddori mewn chwilio syniadau newid cymdeithasol, gan gynnwys i bwy a chan bwy y gall newid cymdeithasol ddigwydd, a beth ydi'r oblygiadau ehangach.

Yn y fan hon, sgwrs sydd yma, ac ymchwil a datblygu ynghlwm â syniad. Mae'n gyfle i feithrin partneriaethau, rhoi prawf ar ffyrdd o fynd o'i chwmpas hi, cysylltu â chymunedau a mannau, bwrw golwg ar ddewisiadau cyllido a ffyrdd o symud ymlaen, yn hytrach na gwireddu neu roi sylwedd i gelfweithiau sydd wedi'u cwblhau.

O ran canlyniadau, byddwn yn trafod y rhain ac yn cytuno arnyn nhw â'r artist sy'n cael ei fentora ar ddechrau'r rhaglen, sy'n cydnabod her datblygu syniadau prosiectau mewn byd sy'n prysur newid.

Gair Amdanom Ni

Mae Addo yn gweithio gydag artistiaid, cymunedau, partneriaid yn y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol i guradu prosiectau yn y celfyddydau â'u man cychwyn mewn sefyllfa neu gyd-destun, sy'n deillio o feddwl yn feirniadol am faterion cymdeithasol-wleidyddol, yn y byd cyhoeddus ac sy'n hybu ecoleg ddiwylliannol ehangach mannau, cymunedau a safleoedd. Un o'n nodau craidd ydi creu cyfleoedd i eraill wneud a phrofi celfyddyd gyfoes yn y byd cyhoeddus. Datblygwyd y rhaglen hon tuag at gyrraedd y nod yma ac mewn ymateb i angen cefnogaeth a chyingor ar gais artistiaid.

Mae'n rhan o raglen ddatblygu ehangach i staff Addo, a ninnau'n ysgwyddo mwy o rôl arwain wrth y gwaith o guradu, cefnogi a datblygu arfer yn y byd cyhoeddus. Peilot ydi hwn lle byddwn yn rhoi ar brawf gyrchddull tuag at ddatblygu rhaglen barhaol rydym yn gobeithio'i chyflenwi yn y dyfodol.

I gael rhagor o wybodaeth amdanom, ewch i'n gwefan (<http://www.addocreative.com>) a dilyn @addo_creative

Darpariaeth Fentora a Disgwyliadau'r Gwaith Ymchwil a Datblygu

Bydd y rhaglen fentora ar ffurf:

- Sesiwn fentora gychwynol fydd yn canfod anghenion datblygu'r rhai sy'n cael eu mentora a'u huchelgeisiau o ran y rhaglen. Bydd y rhain yn sail cytundeb mentora dan arweiniad y rhai sy'n cael eu mentora a chytuno ar ganlyniadau'r rhaglen.
- Bydd cyfarfodydd grŵp rhwng Addo a'r artistiaid dethol, er mwyn rhannu syniadau a phryderon, neu drafod achosion ar y cyd ddaw i'r fei wrth i ni ddatblygu a gweithio drwy weithgaredd y rhaglen.
- Hyd at chwe sesiwn fentora un i un. Bydd pob un o Gydgyfarwyddwyr Addo yn mentora dau artist. Bydd y sesiynau ar fynd bob hyn a hyn dros rai misoedd ac yn bwrw golwg ar ddatblygu arfer yr artist oddi mewn i'r rhaglen yma a'r tu hwnt iddi.
- Mae disgwyl i'r rhai sy'n cael eu mentora gydweithio â ni i bwysu a mesur y rhaglen yn greadigol a'i dogfennu, yn cynnwys cyfrannu at weithgareddau pwysu a mesur i Addo a'n cyllidwyr, yn ogystal â rhannu a dogfennu cynnydd a dysgu drwy blog a ffotograffiaeth/ffilm/cyfryngau eraill heb eto'u pennu. Cofiwch fod gennym gyllideb ar wahân i ddogfennu'r rhaglen.

Ein Disgwyliad gan yr Artist

Mae gennym ddiddordeb mewn gweithio ar y cyd ag artistiaid sydd â'u bryd ar ehangu eu harfer a'u cyrchddull presennol o ran gweithio yn y byd cyhoeddus, a chraffu arnynt. Dylai'r cynigion fod yn uchelgeisiol a mynd â'ch gwaith y tu hwnt i'r ffiniau presennol a bennir gan gwmpas, graddfa neu ddeunydd. Mae arnom eisiau cyd-guradu gweithiau a chanddyn nhw'n nod gyflawni rhywbeth gwahanol. Mae gofyn i'r artistiaid fod yn fodlon ymdrwytho yn y broses, rhannu syniadau cychwynnol a rhoi o'u hamser i'r broses fentora.

Rhaid i'r artist fod yn gwybod am ddeddfau gweithio gyda phlant ac oedolion agored i niwed, a chydymffurfio â nhw, os ymgymeran nhw â gwaith o'r fath yn rhan o'r rhaglen. Rhaid bod gan yr artist yswiriant indemniad priodol sy'n berthnasol i'r artist ei hun ac i unrhyw beth/au a gynhyrchir neu unrhyw weithgareddau/ddigwyddiadau/berfformiadau cyhoeddus a gynhelir.

Sut i Wneud Cais

I wneud cais ar y rhaglen anfonwch yr wybodaeth sy'n dilyn at commissions@addocreative.com, o dan y pennawd pwnc **'Rhaglen Ymchwil a Datblygu wedi'i Mentora i Artistiaid'** erbyn canol nos 06 Rhagfyr 2020 GMT:

- Datganiad hyd at fil o eiriau ynghylch:
 - Sut y byddai'r rhaglen o fudd i chi a'ch arfer creadigol
 - Sut y mae'r cyfle yma'n cysylltu â'ch gwaith cynt
 - Braslun o syniadau cychwynnol y byddai'n dda gennych eu chwilio drwy'r rhaglen

- Hyd at ddeg o ddelweddau digidol neu fideo arddangos (deng munud fan bellaf). Dylai pob darn o waith fod wedi'i rifo a chynnwys teitl, dyddiad, cyfryngau, a disgrifiad byr (hyd at gant a hanner o eiriau i bob delwedd/darn o waith)
- CV cyfredol
- Ffurflen Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wedi'i llenwi - ar gael yma:
http://www.addocreative.com/ffurflen_monitro_cydraddoldeb_ac_amrywiaeth/

Pan fyddwch yn anfon ffeiliau mawr (dros 4MB), cofiwch roi hyperddolennau â ffeiliau ar-lein neu Dropbox yn cynnwys y ffeiliau.

Y Broses Ddethol

Detholir artistiaid ar sail ansawdd a chwmpas eu cynnig a dangos eu bod yn gymwys a bod eu harfer proffesiynol presennol yn berthnasol i'r rhaglen.

Mae'n amcan gan Addo gynnig mynediad teg a chydradd i'w holl gyfleoedd yn unol â'n Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a Deddf Cydraddoldeb 2010. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan artistiaid o gefndiroedd lleiafrifol ethnig, artistiaid a chanddyn nhw nodweddion gwarchodedig, artistiaid anabl a B/byddar, artistiaid ar gyflogau isel, a phobl ar gyrion cymdeithas. Gofynnwn i ddarpar ymgeiswyr roi gwybod i ni am unrhyw ofynion mynediad sydd ganddynt er mwyn gwneud cais am y cyfle yma.

Bydd panel o Gyd-gyfarwyddwyr Addo a hyd at dri chyfaill beirniadol gwadd yn rhoi ymgeiswyr ar restr fer ar gyfer cyfweiliad o blith y ceisiadau ddaw i law. Bydd y cyfweiliadau ar **16 Rhagfyr 2020** drwy Zoom. Rhaid i'r ymgeiswyr fod ar gael ar gyfer cyfweiliad ar y dyddiad yma. Anfonir gwahoddiadau i gyfweiliad erbyn **09 Rhagfyr 2020**. Yn y cyfweiliad, bydd disgwyl i'r artistiaid rannu rhagor o fanylion am eu gwaith a'u proses weithio a'r cyrchddull sydd ganddynt mewn golwg o ran y rhaglen.

Cynhelir gweithdy 'Sut i Wneud Cais' drwy Zoom ar **25 Tachwedd 2020**. Mae hyn yn gyfle i ofyn cwestiynau ynghylch y rhaglen a'r broses gwneud cais. Cadwch eich lle yma: <https://www.eventbrite.co.uk/e/how-to-apply-online-workshop-gweithdy-ar-lein-sut-i-wneud-cais-tickets-128609433277>.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch ag commissions@addocreative.com, o dan y pennawd pwnc '**Rhaglen Ymchwil a Datblygu wedi'i Mentora i Artistiaid**'.

